

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Aderyn

Elysium Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 8 – 10 Mai
2018

Dyddiad cyhoeddi: 13 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Aderyn fin nos 8 Mai 2018 ac yn ystod dyddiau canlynol sef 9 a 10 Mai.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yn canolbwyntio ar ofal lleiaf cyfyngol i gynorthwyo gwellhad a rhoi cymorth i gleifion i gynnal a datblygu sgiliau.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd parchus
- Roedd yr amgylchedd gofal yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion
- Roedd yn canolbwyntio ar ofal lleiaf cyfyngol i gynorthwyo gwellhad
- Roedd gweithgareddau yn yr ysbyty a'r gymuned yn cefnogi cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Roedd y gwaith o gadw cofnodion yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno trefniadau rheoli heintiau
- Darparu hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd hanfodol
- Cofnodi unrhyw anghenion cleifion sydd heb eu diwallu mewn cynlluniau gofal a thriniaeth

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn ynglŷn â chynnal trefniadau atal a rheoli heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Aderyn wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol ym Mhenperllenni, Sir Fynwy, NP4 0AH.

Mae gan y gwasanaeth 16 o ystafelloedd gwely yn y prif adeilad, a dwy ystafell wely yn y bwthyn. Uned i ddynion yn unig ydyw, ac roedd 16 o gleifion ar adeg yr arolygiad.

Cofrestrwyd y gwasanaeth yn gyntaf ar 20 Hydref 2006.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys cyfarwyddwr yr ysbyty, rheolwr y ward a dau ddirprwy reolwr ward, yn ogystal â thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd. Mae aelodau o dîm amlddisgyblaeth hefyd sy'n cynnwys seiciatrydd fforensig ymgynghorol, seicolegydd, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol a swyddog addysg.

Mae'r ysbyty'n cyflogi tîm o staff arlwyo a staff domestig, yn ogystal ag unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal a chadw. Mae staff gweinyddol yn cefnogi'r ffordd y mae'r ysbyty'n gweithredu.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom, a gwnaeth cleifion y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau, fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd priodol ac yn trin cleifion gydag urddas a pharch.

Roedd amrediad o weithgareddau a therapïau addas ar gael yn Aderyn ac yn y gymuned i gynorthwyo adsefydliad cleifion.

Roedd amrediad o wybodaeth ar gael ac yn cael ei harddangos i gleifion, ond mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei harddangos mewn ystod o fformatau.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrediad eang o gyfleusterau i gefnogi darpariaeth therapïau a gweithgareddau yn Aderyn. Roedd dau gerbyd dynodedig yn yr ysbyty; un bws mini ac un car mawr. Roedd y rhain yn cynorthwyo'r staff i hwyluso gweithgareddau ac apwyntiadau meddygol cleifion yn y gymuned.

Roedd cofnodion cleifion yn dangos bod cleifion yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol a oedd wedi'i ymgorffori trwy athroniaeth gofal sy'n cymryd risgiau cadarnhaol. Roedd cleifion yn cymryd rhan, ac yn cael eu cefnogi i wneud Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol¹ a oedd yn hyrwyddo gwellhad ac adsefydliad, megis paratoi prydau bwyd a gweithgareddau domestig eraill.

Roedd cegin therapi galwedigaethol ym mhrif adeilad Aderyn y gallai cleifion ei defnyddio i baratoi prydau bwyd, ac ystafell golchi dillad gyda pheiriant golchi a

¹ Gall y gweithgareddau hyn gynnwys tasgau bob dydd megis gwisgo, rhoi bwyd i'w hunain, cael bath, golchi dillad a pharatoi bwyd.

sychu dillad ynddi fel bod modd i gleifion ddysgu a chynnal eu sgiliau. Gwelsom fod yr ystafell golchi dillad yn drefnus trwy gydol yr arolygiad, sy'n welliant o'n harolygiad blaenorol.

Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol a oedd ag offer coginio wedi'u staenio ac arwynebau gwaith a chypyrddau â marciau arnynt. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y darparwr cofrestredig wedi nodi hyn ac wedi dechrau cynllunio i foderneiddio'r fan hon. Roedd gan y bwthyn gegin gydag offer coginio a golchi ynddi ar gyfer y cleifion a oedd yn byw yn y rhan hon.

Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau hamdden a therapiwtig, gyda llawer o gleifion yn cymryd absenoldeb trwy ganiatâd o'r ysbyty yn rheolaidd i fod yn y gymuned.

Roedd ystafell fawr gyda bwrdd pŵl, consolau gemau a chyfarpar ymarfer cardiofasgwlaidd yn Aderyn. Cadarnhaodd staff a chleifion fod cyfleusterau hamdden yn y gymuned yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'r darparwr cofrestredig hefyd yn cynnal gemau pêl-droed rheolaidd rhwng ysbytai eraill o fewn yr ardal wasanaeth leol.

Roedd rhai o'r cleifion a'r staff yn rhan o raglen ffitrwydd, *Mission Fit*, a oedd yn cynnwys her *Couch to 5k*² lle roedd cleifion a staff yn rhoi cymorth i'w gilydd i gwblhau'r her. Roedd llyfr cofnodion ar wahân ar gyfer *Mission Fit* a oedd yn cynorthwyo wrth fonitro pwysau, bwyd a dŵr a oedd wedi'u bwyta/yfed ac awgrymiadau addas a chyngor ar gyfer bwyta'n iach.

Roedd nyrs practis yn dod i Aderyn am ddwy sesiwn hanner diwrnod bob wythnos, ac roedd meddyg teulu'n cyfrannu bob wythnos. Roedd cofnodion asesu a monitro cleifion y gwnaethom eu hadolygu'n fanwl ac yn helaeth.

Roedd cleifion yn gallu mynd yn uniongyrchol i ardd gaeedig er mwyn cael awyr iach. Roedd cleifion ag absenoldeb awdurdodedig o'r ysbyty hefyd yn gallu defnyddio'r gerddi helaeth a oedd yn amgylchynu'r ysbyty. Roedd ardal arddwriaethol yn y gerddi a oedd yn cynnwys dau dwnnel polythen. Fodd

² Rhaglen o ymarfer corff a chynyddu faint o weithgarwch a wneir gyda'r nod y bydd yr unigolyn yn gallu cwblhau 5km trwy gerdded/rhedeg <https://www.nhs.uk/LiveWell/c25k/Pages/couch-to-5k.aspx>

bynag, roedd yr ardal arddwriaethol wedi tyfu'n wyllt ers y llynedd, ac roedd y twneli polythen wedi'u difrodi. Dywedodd cleifion eu bod eisiau defnyddio'r ardal hon, ond oherwydd ei chyflwr ar hyn o bryd roeddent yn teimlo nad oeddent yn gallu gwneud.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ysbyty ar gyfer cleifion gan gynnwys manylion sut i wneud cwyn a chysylltu â sefydliadau allanol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fodd bynnag, gallai'r gwasanaeth wella'r ystod o wybodaeth sy'n cael ei harddangos i gleifion i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am hybu iechyd, a rhagor o fanylion am y trefniadau eiriolaeth sydd ar gael.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael hefyd ac yn cael eu rhoi i gleifion er mwyn eu helpu i ddeall meysydd eu gofal, megis y Ddeddf Iechyd Meddwl a meddyginiaeth.

Prin oedd y wybodaeth a oedd yn hawdd ei darllen neu yn y Gymraeg a oedd yn cael ei harddangos neu ar gael yn rhwydd i gleifion.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan gleifion fynediad at raglenni addysgol a'u bod yn cael eu hannog i gymryd rhan ynddynt. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthiadau a oedd yn cael eu hwyluso gan y swyddog addysg a gyflogir gan y darparwr cofrestredig a chael mynediad at ddosbarthiadau yn y gymuned.

Roedd modd i gleifion gymryd rhan mewn sesiynau addysgol yn Aderyn mewn pynciau megis Saesneg a mathemateg. Roedd yr ystafell gyfrifiaduron yn rhoi'r cyfle i gleifion gael mynediad at y rhyngwyd o dan oruchwyliaeth staff, yn ogystal â dysgu sgiliau cyfrifiadurol eraill. Roedd difrod i un wal yn yr ystafell gyfrifiaduron yr oedd angen ei atgyweirio.

Er mawr siom, nid oedd y cyrsiau a ddarperir gan y darparwr cofrestredig yn Aderyn wedi'u hachredu'n ffurfiol. Byddai'n fuddiol i'r cleifion pe bai'r darparwr cofrestredig yn ystyried darparu cyrsiau achrededig yn Aderyn er mwyn i gleifion gael ennill cymwysterau ffurfiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio/adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r ffordd y mae'n cynnal yr ardal arddwriaethol a'r twneli polythen.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod amrediad ehangach o

wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion, gan gynnwys mwy am wasanaethau hybu iechyd ac eiriolaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos mewn fformat addas ar gyfer anghenion y grŵp cleifion neu'r unigolyn, gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei darllen ac yn y Gymraeg.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio'r difrod i'r wal yn yr ystafell gyfrifiaduron.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried achredu a/neu ardystio'r cyrsiau addysgol yn Aderyn.

Urddas a pharch

Gwelsom fod pob gweithiwr: staff y ward, yr uwch reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ynghylch eu gwaith, ac yn frwdfrydig o ran sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion gyda lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwelsom staff yn dangos parch tuag at gleifion; pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn derbyn agweddau gofalgarg, moesgar ac ymatebol. Cytunodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch yn Aderyn.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi trwy gydol y dydd; roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd i'r cleifion. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, ond roedd allweddi'r staff yn gallu eu hagor pe bai rhaid. Roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda'u heiddo personol, a darparwyd digon o fannau storio ar gyfer eu heitemau yn yr ystafelloedd.

Roedd ystafelloedd addas yn yr ysbyty i'r cleifion gyfarfod â'r staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd cleifion yn cael eu hannog i gwrdd â'u teulu ac ymwelwyr yn y gymuned fel rhan o'u gofal adsefydlu. Roedd trefniadau ymweld ar waith i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn Aderyn. Cawn ar ddeall mai anaml iawn y mae plant yn ymweld â'r ysbyty, a lle bo'n bosibl, cynhelir yr ymweliadau hyn yn y gymuned. Roedd trefniadau priodol ar waith i hwyluso ymweliadau plant â'r ysbyty; er nad oedd ystafell benodol ar gyfer plant a oedd yn ymweld, roedd yr ystafell ymwelwyr wedi'i lleoli'n addas o fewn tiroedd yr ysbyty a oedd yn golygu nad oedd rhaid i gleifion fynd i brif adeilad yr ysbyty.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Fel y nodwyd uchod, roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion yn Aderyn, ond gellid arddangos gwybodaeth ychwanegol yn tynnu sylw at hybu iechyd a'r trefniadau eiriolaeth. Gellid darparu gwybodaeth mewn mwy o fformatau hefyd er mwyn diwallu anghenion y grŵp cleifion yn y ffordd orau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Pan oedd cleifion yn dal i fod yn aneglur, neu y camddeallwyd yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyfathrebu, byddai'r staff yn ceisio dehongli'n amyneddgar yr hyn yr oeddent wedi ei ddweud.

Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob bore yn yr ysbyty i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, apwyntiadau meddygol a thribiwnlysoedd. Roedd cleifion hefyd yn cael y cyfle i gynnig adborth am y gofal maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Gyda chytundeb y cleifion, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd hefyd.

Cadarnhaodd y cleifion y buom yn siarad â nhw fod staff yn cyfathrebu â nhw'n eglur, a'u bod yn deall eu gofal. Roedd cleifion hefyd yn teimlo y gwrandewir arnynt, a bod modd i gleifion weld bod eu safbwyntiau'n cael eu cynnwys a'u hystyried o ganlyniad i'r cofnodion electronig ar gyfer adolygiadau o ofal.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pwyslais clir ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn yr ysbyty. Roedd gofal unigol yn cael ei ddarparu, ac roedd yn canolbwyntio ar driniaeth ac adferiad a gefnogwyd gan yr arferion lleiaf rhwystrol, wrth gynllunio gofal ac mewn arferion ward neu ysbyty.

Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol, fel meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn

cynnwys sesiynau unigol a grŵp, o fewn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd yr awdurdodiad gofynnol yn ei le).

Roedd Aderyn yn darparu amgylchedd adsefydlu dan glo i gleifion i'w paratoi am gael eu rhyddhau i amgylchedd llai diogel. Roedd hyn yn cael ei gynorthwyo'n rhannol gyda'r bwthyn a oedd yn yr ysbyty, a oedd yn rhoi'r cyfle i gleifion dderbyn gofal mewn amgylchedd gyda'r cymorth lleiaf posibl gan staff.

Fodd bynnag, gwnaethom drafod achosion penodol gyda chyfarwyddwr yr ysbyty (ac uwch aelodau o staff eraill) ynghylch llwybrau cleifion, a'r anhawster o ran dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer rhyddhau cleifion o Aderyn. Amlygodd ein trafodaethau, lle roedd cleifion yn barod i'w rhyddhau i'r gymuned, ond ni nodwyd unrhyw leoliad addas ar eu cyfer, y gallai hyn effeithio ar allu cleifion eraill i symud ymlaen i'r bwthyn ac felly oedi eu cynnydd a'u trefniadau rhyddhau hwythau. Gwnaeth y darparwr cofrestredig ddangos bod y sefydliad yn ystyried opsiynau llwybrau cleifion yn strategol er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion staff yn cyd-fynd â pholisïau sefydledig yr ysbyty ac roedd systemau yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Roedd cynllun yr ysbyty a pholisïau'r sefydliad yn sicrhau amgylchedd hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd posibl.

Roedd y dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer i Gymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod).

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfleoedd ar gael i gleifion, eu perthnasau a'u gofalwyr ddarparu adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty; roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd unigol a chymunol.

Roedd poster o'r enw Awgrymiadau, Syniadau a Chwynion yn cael ei arddangos, yn esbonio proses y darparwr cofrestredig ar gyfer rhoi adborth. Roedd llyfr i gleifion ac ymwelwyr a oedd yn nodi manylion sut i roi adborth, gan gynnwys i sefydliadau allanol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac wedi'i gyfarparu â dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw i rai mannau yn ogystal â gwneud gwelliannau i'r trefniadau atal a rheoli heintiau.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i alluogi staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol, ond mae angen eglurdeb o ran storio Cyffuriau sy'n Agored i Gael eu Camddefnyddio.

Roedd y dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd gan Aderyn brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau, ac i gynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd mynedfa'r ysbyty'n ddiogel er mwyn atal unrhyw un heb awdurdod rhag mynd i mewn, ac roedd pob ymwelydd yn cofrestru yn y brif dderbynfa.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth yn ôl y gofyn. Roedd pwyntiau galw am nyrs o amgylch yr ysbyty hefyd ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen. Gwelliant ers ein harolygiad blaenorol oedd bod botymau galw nyrsys yn yr ystafelloedd gwely o fewn cyrraedd i'w gwelyau.

Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, roedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i arsylwi ar gleifion, gan gynnwys arsylwi manwl a newidiadau i lefelau arsylwi.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau rhwymynnau cyfredol ar waith. Yn dilyn canfyddiadau ein harolygiad blaenorol, roedd gwelliannau wedi'u gwneud i'r goleuadau allanol er mwyn sicrhau bod digon o olau yn yr ardaloedd tu allan, ac roedd atgyweiriadau wedi'u cwblhau ar y lifft a'r ffenestri allanol.

Cadarnhaodd staff nad oedd llawer o ddigwyddiadau wedi bod yn yr ysbyty ers ein harolygiad blaenorol, yn benodol o ran unrhyw angen i staff ddal cleifion yn ddiogel neu ddefnyddio dulliau atal. Roedd y cofnodion clinigol, gan gynnwys y system cofnodi digwyddiadau, yn dangos hyn, gydag ymosodiadau llafar yn cael eu cofnodi fel 'lefel isel', yr oedd staff yn gyflym yn sicrhau nad oeddent yn gwaethygu. Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos bod 64% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf am dorri'n rhydd, a 62% wedi cwblhau hyfforddiant am reoli ymddygiad treisgar neu ymosodol. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant yn cael eu cynnal ar gyfer y rhain, fel bod gan staff y wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau hanfodol hyn.

Ers ein harolygiad blaenorol, mae un ystafell wely wedi'i datblygu'n ystafell lle gellid darparu gofal ar gyfer claf pe bai'n dangos ymddygiad mwy heriol. Roedd gan y darparwr cofrestredig ddrafft o weithdrefn leol o ran pryd y dylid defnyddio'r ystafell, a'r gweithdrefnau y dylai'r staff eu dilyn. Er y gwnaeth cyfarwyddwr yr ysbyty gadarnhau nad ystafell neilltuo oedd yr ystafell, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn leol a gadarnhawyd yn diffinio'n glir y telerau ar gyfer defnyddio'r ystafell, a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn diogelu staff a chleifion. Dylid darparu hyfforddiant a chanllawiau eglur i staff ynghylch defnyddio'r ystafell, gan gynnwys yr hyn a ellir ei ddiffinio fel neilltuo³.

³ Gweler Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2016 (diwygiwyd 2016), paragraffau 26.38 – 26.49.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau'r polisi lleol ar gyfer yr ystafell.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Roedd arweinydd rheoli heintiau yn ogystal â dirprwy-arweinydd, a oedd yn goruchwyllo atal a rheoli heintiau ar gyfer yr ysbyty. Roedd system o archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu cynnal gyda'r nod o ganfod meysydd i'w gwella er mwyn gallu cymryd camau priodol ble y bo angen.

Roedd archwiliad allanol blynyddol wedi'i gwblhau ym mis Ebrill 2018. Gwnaeth hyn dynnu sylw at feysydd yr oedd angen eu gwella, gan gynnwys adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod rhaglen o waith mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad allanol.

Roedd staff cadw tŷ pwrpasol, ond roedd swydd wag oddeutu 0.5 cyfwerth ag amser llawn, yr oedd y darparwr cofrestredig wrthi'n ceisio recriwtio i'w llenwi. O ganlyniad, dim ond un aelod o staff cadw tŷ a oedd yn cael ei gyflogi ar adeg yr arolygiad. Roedd yn amlwg bod y swydd wag wedi cael effaith ar y gallu i gwblhau'r rhaglen lanhau a drefnwyd, ac felly glendid yr ysbyty. Tynnwyd sylw at hyn hefyd yn yr archwiliad allanol ym mis Ebrill.

Er gwaethaf y diffygion o ran staff cadw tŷ, ar y cyfan roedd y mannau cymunedol ym mhrif adeilad yr ysbyty yn daclus a heb lanastr ynddynt trwy gydol yr arolygiad.

Nodwyd hefyd fod y bwthyn yn Aderyn, lle caiff cleifion eu hannog i fod yn fwy annibynnol a chael cyfrifoldeb ychwanegol dros lendid a thacluswydd, yn fudr ac yn llawn llanastr ac anhrefn. Er bod angen rhoi'r cyfle i gleifion fod yn fwy annibynnol fel rhan o'r adsefydliad, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael eu cefnogi o hyd pan nad ydynt yn gallu cynnal eu lefelau annibyniaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw glendid y bwthyn yn gwaethygu ac effeithio o bosibl ar lesiant corfforol a/neu feddyliol cleifion.

Roedd offer golchi dillad y staff cadw tŷ wedi'u lleoli mewn man nad oedd ar gyfer cleifion, wedi'i diogelu gan ddrws y gellir ei gloi. Fodd bynnag, nid oedd y drws i'r ystafell golchi dillad wedi'i gloi, ac nid oedd eitemau COSHH⁴ wedi'u cadw dan glo yn yr ystafell golchi dillad er mwyn eu diogelu rhag ofn bod claf yn cael mynediad at y fan hon.

Roedd offer glanhau wedi eu storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cynnyrch hylendid dwylo ar gael mewn mannau perthnasol, ac roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol. Defnyddiwyd biniau plastig dynodedig ar gyfer storio a chael gwared ar offer miniog meddygol, er enghraifft, nodwyddau hypodermig. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o ddarpariaeth cadw tŷ yn Aderyn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro a chefnogi cleifion, lle bo angen, yn y bwthyn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafell golchi dillad y staff cadw tŷ yn cael ei chloi er mwyn atal unrhyw un heb awdurdod rhag mynd i mewn, a sicrhau bod eitemau COSHH yn cael eu storio yn unol â'r rheoliadau cysylltiedig.

Maeth

Canfuom fod cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fwydlen amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym fod ganddynt ddewis o bethau i'w bwyta. Roedd gan gleifion fynediad rhydd at ffrwythau ffres a diodydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r prydau bwyd a oedd ar gael i gleifion, a gweld eu bod o ansawdd da. Gwnaethom hefyd arsylwi ar amseroedd bwyd yn yr ysbyty; cadarnhaodd y cleifion a'r staff fod y prydau bwyd maen nhw'n eu derbyn, ac y cawsom flas ohonynt, yn nodweddiadol o'r hyn a ddarperir yn Aderyn.

⁴ O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. <http://www.hse.gov.uk/cosh/>

Fel rhan o ofal adsefydlu claf, roedd modd i'r cleifion ddefnyddio'r ceginau therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau bwyd eu hunain a oedd yn eu galluogi i gynnal a dysgu sgiliau coginio. Pan oedd gan gleifion awdurdodiad am absenoldeb o dan Adran 17 roeddent hefyd yn gallu siopa am fwyd fel rhan o'u gweithgareddau adsefydlu a oedd yn canolbwyntio ar y gymuned.

Yn ystod noswaith gyntaf yr arolygiad dirybudd, gwnaethom sylwi ar gynnyrch oedd ymhell y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio yn cael ei storio yn oergell y gegin therapi galwedigaethol. Pe bai'n cael ei fwyta, gallai hyn fod wedi cael effaith sylweddol ar lesiant cleifion. Cafwyd gwared ar y cynnyrch a oedd heibio i'w ddyddiad ar unwaith, a chadarnhaodd cyfarwyddwr yr ysbyty y byddai'n dechrau archwiliad wythnosol. Roedd llawer o iâ mewn un oergell-rhwgell, ac roedd bwyd wedi'i rewi wedi'i ddifrodi y tu mewn iddi. Mae angen dadmer y rhewgell yn rheolaidd neu mae'n bosibl nad yw'n gweithio'n iawn ac efallai y bydd angen ei hatgyweirio neu gael un newydd yn ei lle.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad o'r cynnyrch sydd wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio yn cael ei gynnal yn rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rhewgelloedd yn gweithio'n iawn, ac nad ydynt yn difrodi'r cynnyrch sy'n cael ei storio ynddynt.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau, ac roedd oergelloedd meddyginiaeth wedi eu cloi yn y clinig a oedd hefyd dan glo. Roedd tystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar yr oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gweithgynhyrhydd. Roedd prosesau archwilio ac adolygu fferylliaeth allanol yn ategu llywodraethu'r ystafell glinig.

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 yn cael eu dilyn. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu defnyddio fel meddyginiaeth yn yr ysbyty, ac felly nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu storio.

Roedd staff yn cymryd rhagofalon ychwanegol o ran cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio⁵ trwy eu storio mewn cwpwrdd cyffuriau a reolir. Nid oedd polisi'r darparwr cofrestredig ynghylch rhoi a storio meddyginiaeth yn sôn yn benodol am storio cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio. Nid oedd y cwpwrdd cyffuriau a reolir yn ddigon mawr i storio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi yn unol â'r canllawiau proffesiynol presennol i sicrhau bod arweiniad clir i staff ynghylch storio cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio, a sicrhau bod digon o storfeydd diogel ar gael.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, llun o'r claf, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chopïau o'r tystysgrifau cydsyniad i driniaeth. Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Er bod meddyginiaeth PRN⁶ yn cael ei chofnodi ar siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth, nid oedd cofnod bob amser yng nghofnodion y cleifion bod meddyginiaeth PRN wedi'i rhoi, a'r rheswm dros hynny.

Roedd yn gadarnhaol bod gan y darparwr cofrestredig bolisi cymryd eich meddyginiaeth eich hun fel rhan o'r gofal adsefydlu yn Aderyn, ar gyfer cleifion a oedd yn barod i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain. Roedd hyn yn galluogi cleifion i reoli eu meddyginiaeth eu hunain yn fwy annibynnol cyn cael eu rhyddhau.

⁵ Meddyginiaethau sy'n debyg o gael eu dargyfeirio neu eu camddefnyddio yw cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio. Mae enghreifftiau'n cynnwys bensodiasepinau, steroidau, seicotropigion a charthyddion. Nid [Cyffuriau a Reolir Atodlen 2](#) yw cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio, sy'n cael eu rheoleiddio'n benodol. Dylai pob sefydliad gofal iechyd wneud ei orau glas i sicrhau bod pob meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Dylid cymryd mesurau ychwanegol i sicrhau bod cyffuriau sy'n debyg o gael eu camddefnyddio yn cael eu llywodraethu'n well a'u cyfrif amdanynt.

⁶ Rhoddir meddyginiaeth PRN yn ôl yr angen, yn hytrach na meddyginiaeth a roddir ar adegau rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod canllawiau clir i staff ynghylch storio cyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd trefniadau wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a roddwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 83% o staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff sy'n weddill yn cwblhau eu hyfforddiant blynyddol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn yr ysbyty, gan gynnwys archwiliad o'r cyfarpar dadebru. Roedd y staff yn cofnodi'r rhain i sicrhau bod yr offer yn bresennol. Fodd bynnag, nid oedd rhestr wirio'r dyddiadau dod i ben yn cynnwys pob eitem a oedd â chyfyngiad amser yn y bag argyfwng; mae angen ehangu'r rhestr hon i gynnwys pob eitem.

Roedd bag argyfwng newydd wedi'i rhoi yn lle'r hen un yn ddiweddar, a oedd yn wahanol iddo. Felly, argymhellir bod pob aelod o staff yn cael sesiwn i ddod yn gyfarwydd â chynnwys a lleoliad yr eitemau yn y bag er mwyn eu helpu mewn ymateb i argyfwng.

Roedd nifer o dorwyr rhwymynnau wedi'u lleoli drwyddi draw yn yr ysbyty rhag ofn bod argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhestr wirio dyddiadau dod i ben cynnwys y bag argyfwng yn cynnwys pob eitem sydd â chyfyngiad amser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Roedd y trefniadau ar gyfer yr ysbyty yn cael eu trosglwyddo trwy drefniadau llywodraethu Elysium Healthcare, a oedd yn hwyluso proses ddwy ffordd o fonitro a dysgu.

Fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae angen i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â diffygion mewn rhai Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, ac mae'r rhain wedi'u nodi'n fanwl, yn ogystal â chymau gweithredu'r darparwr cofrestredig, yn Atodiad B.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn electronig yn bennaf a oedd wedi'u diogelu gan gyfrinair i atal unrhyw fynediad heb awdurdod a thorri cyfrinachedd. Roedd dogfennau papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn swyddfeydd dan glo, a gwelsom staff yn diweddarau ac yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer tri o gleifion Aderyn. Gwnaethom adolygu'r prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith ar gyfer monitro defnydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr ysbyty hefyd.

Gwnaeth y tair set o ddogfennau statudol gadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon yn Aderyn. Mewn achos arall, gwnaeth gwaith craffu'r darparwr cofrestredig o ddogfennau statudol ynghylch trosglwyddo claf nodi gwall a oedd wedi digwydd mewn gwasanaeth blaenorol, a oedd yn annilysu'r cadw; cymerodd y darparwr cofrestredig gamau priodol pan nodwyd y gwall hwn.

Roedd yn amlwg bod y cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf. Nodwyd yn gywir ar y ffurflenni statudol bod y cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu, ac roedd copïau o bapurau cadw statudol ar gael i staff y ward yn yr ysbyty. Fodd bynnag, ni wnaed cofnod yng nghofnodion dyddiol y cleifion, a fyddai'n hysbysu staff y ward yn glir bod y cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth; gyda thystysgrifau cydsyniad i driniaeth bob amser yn cael eu cadw gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth cyfatebol. Golygai hyn y gallai staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau

bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Roedd pob achos o absenoldeb trwy ganiatâd i gleifion wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb o dan Adran 17. Roedd absenoldeb o dan Adran 17 yn nodi amodau'r absenoldeb trwy ganiatâd yn glir h.y. wedi'u hebrwng neu heb eu hebrwng, lleoliad a hyd; fodd bynnag, nid oedd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, megis ardaloedd daearyddol wedi'u gwahardd, bob amser wedi'u cofnodi'n eglur ar y ffurflen absenoldeb. Byddai cynnwys y cyfyngiadau'n cynorthwyo'r staff a'r claf i ddeall cyfyngiadau ei absenoldeb trwy ganiatâd heb orfod cyfeirio at y llythyr awdurdodi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Nid oedd yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion p'un a oedd y claf wedi cael cynnig neu dderbyn copi o'i ffurflen absenoldeb trwy ganiatâd o dan Adran 17, i ddangos paragraff 27.18, Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2016 (diwygiwyd 2016).

Mewn un achos, tynnwyd absenoldeb trwy ganiatâd o dan Adran 17 un claf yn ei ôl. Er bod y staff a'r claf yn ymwybodol mai dyma oedd yr achos, nid oedd wedi'i adlewyrchu ar y system electronig. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y ward a ymdriniodd â hyn ar unwaith. Esboniwyd nad oedd staff y ward yn ymwybodol bod modd iddynt ddiweddarau'r system i dynnu absenoldeb trwy ganiatâd yn ôl.

Roedd gan y staff fynediad at ystod o daflenni gwybodaeth i gleifion i'w helpu i gynnal trafodaethau â chleifion ynghylch eu gofal a'u triniaeth yn yr ysbyty. Nodwyd mewn cofnodion cleifion eu bod wedi cael eu hysbysu am eu hawliau, ond prin oedd y wybodaeth a nodwyd o'r hyn a drafodwyd, ac a oedd y claf yn deall y wybodaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i derbyn, fel yr arweinir gan bennod 4 y Cod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yng nghofnodion dyddiol y claf fod cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod awdurdodiadau am absenoldeb o dan Adran 17 yn rhoi manylion unrhyw gyfyngiadau sy'n cael eu gosod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o p'un a yw'r claf wedi cael cynnig neu dderbyn copi o'i ffurflen absenoldeb o dan Adran 17.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i derbyn o dan Adran 132 o'r Ddeddf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o dri chlaf.

Roedd tystiolaeth bod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth unigol yn manteisio ar gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydliad ac annibyniaeth. Datblygwyd y rhain gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth ac roeddent yn cynnwys monitro iechyd corfforol a hybu iechyd da.

I ategu cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli

Fodd bynnag, roedd hefyd yn gyffredin nad oedd staff yn cofnodi'n eglur unrhyw anghenion heb eu diwallu a allai fod gan glaf wrth dderbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion heb eu diwallu yn cael eu cofnodi fel y gall y rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Gall y rhain gynnwys anawsterau o ran nodi lleoliadau addas ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Cadarnhaodd cleifion eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn datblygu eu gofal yn Aderyn, gyda phwyslais ar gael eu rhyddhau. Gyda chaniatâd y cleifion unigol, gwnaethom fynyachu dau adolygiad gofal, a gweld staff yn cynnal cyfarfod cynhwysfawr a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom fod

safbwyntiau a dymuniadau cleifion yn cael eu clywed, a bod y staff yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniadau a wnaed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt wedi'u diwallu yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom waith rheoli ac arwain da yn Aderyn, a oedd yn cael ei gefnogi gan Elysium Healthcare. Gwelsom staff ymroddedig â chanddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Ar y cyfan roedd graddau cwblhau hyfforddiant gorfodol, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol yn uchel. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd sgiliau hanfodol.

Roedd recriwtio yn digwydd drwy broses agored a theg gyda gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn, i raddau, trwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir i gleifion.

Roedd gan uwch-reolwyr dynodedig gyfrifoldebau penodol dros sicrhau bod y rhaglen lywodraethu'n parhau i fod yn hollbwysig i'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel bod modd eu hadolygu yn yr ysbyty ac o fewn strwythur ehangach y sefydliad.

Roedd tîm amlddisgyblaeth cryf iawn yn gweithio gyda'r staff a gwnaethant sylwadau cadarnhaol am ei gilydd a nodi eu bod yn teimlo bod aelodau eraill o staff yn gwrando ar eu barn ac yn ei pharchu. Siaradodd cyfarwyddwr yr ysbyty am ei chysylltiadau da â chymheiriaid a chymorth gan gyfarwyddwyr ysbytai Elysium lleol eraill trwy gyfarfodydd rheolaidd neu o bell dros y ffôn neu e-bost.

Bu i'r staff yn siarad yn gadarnhaol ynghylch yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarperir gan uwch-reolwyr, a'r cymorth gan gydweithwyr ar draws y disgyblaethau. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Aderyn yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn cwynion ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion cleifion am wasanaethau yn Aderyn.

Roedd cwynion yn cael eu categorio fel cwynion ffurfiol neu anffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol, a oedd yn cael eu codi a'u datrys ar lefel y ward, yn cael eu cofnodi ar gofnod papur o gwynion, ac roedd cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar system electronig y darparwr cofrestredig. Roedd cwynion ffurfiol yn cael eu monitro a'u hadolygu trwy drefniadau llywodraethu clinigol a oedd yn sicrhau bod y broses cwynion yn cael ei dilyn a'u cwblhau.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enwau'r claf/cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd y defnydd o unrhyw ddulliau atal yn cael ei gofnodi.

Roedd hierarchaeth o ran llofnodi i gadarnhau digwyddiad a oedd yn sicrhau bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn da bryd. Roedd adroddiadau digwyddiadau rheolaidd yn cael eu llunio a'u hadolygu ar lefel ysbyty a sefydliad fel y gellid adolygu a dadansoddi nifer y digwyddiadau.

Roedd trefniadau ar waith yn yr ysbyty a'r sefydliad ehangach i ledaenu gwybodaeth a gwersi yr oedd staff wedi'u dysgu o gwynion a digwyddiadau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r sefydliad staffio yn Aderyn a'r hyn a nodwyd ganddynt yn eu Datganiad o Ddiben. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaeth wedi hen sefydlu, ac nad oedd unrhyw swyddi nyrsys cofrestredig gwag. Trwy drafod â staff ac adolygu cofnodion cleifion, cawsom dystiolaeth o waith cydweithredol gan y tîm amlddisgyblaeth.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff yn Aderyn a chanfod bod y cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cyrsiau a chydymffurfiad staff unigol i reolwr y cyfleuster. Cadarnhaodd staff hefyd eu bod yn mynd i sesiynau hyfforddiant

ychwanegol a chynadleddau sy'n berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos bod angen i wyth aelod o staff gwblhau naill ai hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol neu gynnal bywyd ar unwaith.

Roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac adolygiadau datblygiad. Roedd strwythur goruchwyllo wedi'i weithredu'n ddiweddar. Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff yn derbyn Pasbort Goruchwyllo Elysium i gofnodi'r dyddiadau yr oedd y sesiynau goruchwyllo'n cael eu cynnal, gan gynnwys a oedd yn oruchwyliaeth glinigol neu reolwrol, ac fel unigolyn, grŵp, ymarfer myfyriol, ôl-drafodaeth ac ati.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y darparwr cofrestredig gynllun cyfeillio i nyrsys dan hyfforddiant, menter lle roedd cleifion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu nyrsys dan hyfforddiant trwy fod yn gyfaill iddynt. Roedd hyn yn galluogi'r claf i roi ei safbwynt ar y gofal a'r cymorth, a chynorthwyo'r nyrs i ddeall anghenion unigol y claf o ran adferiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau ei hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys: cynnal bywyd sylfaenol, cynnal bywyd ar unwaith, technegau torri'n rhydd, rheoli trais ac ymddygiad ymosodol.

Dylai'r darparwr cofrestredig roi sesiwn hyfforddi i'r holl staff er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r bag argyfwng newydd.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn Aderyn, a chawsom sampl o ffeiliau deg aelod o staff. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg; roedd cofnodion o'r ceisiadau, cyfweliadau ac unrhyw ohebiaeth yn cael eu cadw ym mhob ffeil. Cyn i staff ddechrau gweithio, roedd y gwasanaeth yn casglu geiradaon, yn gwirio cymwysterau proffesiynol ac yn cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac yn eu diweddarw wedyn bob tair blynedd.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, a chadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi ni i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Aderyn

Dyddiadau'r arolygiad: 8 – 10 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio/adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd 12. Yr amgylchedd	Mae amserlen adnewyddu ar waith ar gyfer Aderyn, sy'n cynnwys adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol yn llwyr.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Medi 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r ffordd y mae'n cynnal yr ardal arddwriaethol a'r twnneli polythen.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd 12. Yr amgylchedd	Mae'r uwch-therapydd galwedigaethol wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â chynnal yr ardal arddwriaethol, ac mae wedi'i ymgorffori yn rhan o amserlenni gweithgareddau'r cleifion, lle bo'n briodol. Fel rhan o'r amserlen cynnal a chadw, y bwriad yw gosod tŷ gwydr yn lle'r twnnel polythen.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty ar y cyd â Kathy Davies, Uwch-therapydd Galwedigaethol	Yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod amrediad ehangach o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion, gan gynnwys mwy am wasanaethau hybu iechyd ac eiriolaeth.</p>	<p>3. Hybu, diogelu a gwella iechyd</p> <p>9. Gwybodaeth a chydysniad cleifion</p>	<p>Gwnaed cais i Iechyd Cyhoeddus Cymru am ragor o lenyddiaeth ynghylch hybu iechyd. Bydd mwy o lenyddiaeth yn cael ei harddangos yn hybu rhaglen <i>Mission Fit Elysium</i> hefyd.</p> <p>Cysylltwyd â Hafal a Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru, a byddant yn darparu rhagor o lenyddiaeth i'w harddangos ar y ward, gan gynnwys gwybodaeth yn y Gymraeg.</p>	<p>Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Gorffennaf 2018</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos mewn fformat addas ar gyfer anghenion y grŵp cleifion neu'r unigolyn, gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei darllen ac yn y Gymraeg.</p>	<p>3. Hybu, diogelu a gwella iechyd</p> <p>18. Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Bydd Aderyn yn sicrhau ei fod yn bodloni'r Safonau Gwybodaeth Hygyrch wrth dderbyn cleifion ac wedi hynny. Bydd asesu clinigwyr yn nodi anghenion cyfathrebu, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i gynllun llunio anghenion, a'i chofnodi yng nghofnodion y cleifion.</p> <p>Mae gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith sy'n cynnwys ffurflen i wneud cais am bob math o lenyddiaeth mewn iaith wahanol, fformat hawdd ei ddarllen ac ati pe bai angen.</p>	<p>Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Mehefin 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio'r difrod i'r wal yn yr ystafell gyfrifiaduron.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd 12. Yr amgylchedd	Mae cynllun gweithredu cynnal a chadw ar waith ar gyfer Aderyn, sy'n cynnwys atgyweirio'r wal yn yr ystafell gyfrifiaduron.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty ar y cyd â'r arweinydd cynnal a chadw	Awst 2018
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried achredu a/neu ardystio'r cyrsiau addysgol yn Aderyn.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r Uwch-therapydd Galwedigaethol a'r tiwtor wedi datblygu cynllun dysgu strwythuredig a fydd yn cael ei adolygu bob 12 wythnos. Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau mewnol ardystiedig wedi'u hwyluso gan ein tiwtor.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty ar y cyd â'r Uwch-therapydd Galwedigaethol a'r tiwtor	Yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau'r polisi lleol ar gyfer yr ystafell.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae'r drafft o'r weithdrefn leol ar gyfer yr ystafell wely arsylwi wedi'i gadarnhau ac mae bellach ar waith. Bydd pob aelod o staff yn ymgyswddo â'r weithdrefn yn ystod cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwyllo.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o ddarpariaeth cadw tŷ yn Aderyn.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r swydd cadw tŷ wedi'i hail hysbysebu ac rydym wedi derbyn nifer o geisiadau. Mae'r cyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer 12 Mehefin 2018.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty Jenny Delaney, Adnoddau Dynol	Mehefin/Gorff ennaf 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro, a chefnogi cleifion (lle bo angen) yn y bwthyn.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd gweithiwr allweddol yn cael ei ddyrannu i gefnogi cleifion yn y bwthyn ar sail bob tair wythnos. Mae'r bwthyn yn rhan o restr wirio/archwilio iechyd a diogelwch wythnosol sy'n cael ei monitro gan uwch-reolwyr.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty.	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafell golchi dillad y staff cadw tŷ yn cael ei chloi er mwyn atal unrhyw un heb awdurdod rhag mynd i mewn, a sicrhau bod eitemau COSHH yn cael eu storio yn unol â'r rheoliadau cysylltiedig.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae mynediad i ystafell y staff cadw tŷ bellach yn gyfyngedig. Bydd gan y nyrs â gofal yr unig allwedd ar gyfer staff y ward.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad o'r cynnyrch sydd wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio yn cael ei gynnal yn rheolaidd.	14. Maetheg	Mae'r Uwch-therapydd Galwedigaethol a'r tiwtor wedi cyflwyno archwiliad a arweinir gan y cleifion, i'w gynnal bob wythnos. Bydd staff hefyd yn archwilio hyn bob wythnos er mwyn rhoi sicrwydd.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty Kathy Davies – Uwch-therapydd Galwedigaethol	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rhewgelloedd yn gweithio'n iawn, ac nad ydynt yn difetha'r cynnyrch sy'n cael eu storio ynddynt.	14. Maetheg	Bydd rhewgell newydd yn cael ei rhoi yn lle'r hen un yn rhan o waith adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol. Bydd tymereddau'r rhewgell yn cael eu harchwilio a'u monitro yn y cyfamser.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty Kathy Davies – Uwch-therapydd Galwedigaethol	Medi 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod canllawiau clir i staff ynghylch storio cyffuriau sy'n agored i gael eu camdefnyddio.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae'r polisi meddyginiaethau wedi'i wneud yn fwy clir yn ganolog, a bydd yn cael ei arddangos yn y clinig er mwyn	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfeirio ato. Bydd y weithdrefn yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwyllo.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhestr wirio dyddiadau dod i ben cynnwys y bag argyfwng yn cynnwys pob eitem sydd â chyfyngiad amser.	16. Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau diagnostig	Diweddarwyd rhestr wirio dyddiadau dod i ben cynnwys y bag argyfwng i gynnwys pob eitem sydd â chyfyngiad amser.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yng nghofnodion dyddiol y claf fod cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu.	Y Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa trwy gyfarfodydd, sesiynau goruchwyllo a gohebiaeth am bwysigrwydd cofnodi yng nghofnodion dyddiol y claf fod cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod awdurdodiadau am absenoldeb o dan Adran 17 yn rhoi manylion unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u gosod.	Y Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae archwiliad o absenoldebau o dan Adran 17 wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod pob awdurdodiad presennol yn nodi unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u gosod.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Mehefin 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o p'un a yw'r claf wedi cael cynnig neu dderbyn copi o'i ffurflen absenoldeb o dan Adran 17.	Y Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae archwiliad o absenoldebau o dan Adran 17 wedi'i gynnal er mwyn gweld a yw pob claf yn Aderyn wedi cael cynnig neu dderbyn copi o'i absenoldeb trwy ganiatâd o dan Adran 17.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Mehefin 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i dderbyn o dan Adran 132 o'r Ddeddf.</p>	<p>Y Ddeddf Iechyd Meddwl</p>	<p>Mae ffurflen gadarnhau hawliau'r claf wedi'i diweddarau yn unol â'r Cod Ymarfer mwyaf diweddar, ac mae wedi'i gweithredu. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa trwy gyfarfodydd, sesiynau goruchwyllo a gohebiaeth am bwysigrwydd cofnodi yng nghofnodion electronig cleifion ac ar y ffurflen hon fod cyfnodau cadw wedi'u hadnewyddu.</p>	<p>Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Mehefin 2018</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.</p>	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</p>	<p>Mae rhestr wirio cyfarfodydd yr adolygiad achos cychwynnol / cynlluniau gofal a thriniaeth wedi'i chreu a fydd yn sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt wedi'u diwallu yn cael eu hadolygu a'u cofnodi'n briodol.</p>	<p>Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau ei hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys: cynnal bywyd sylfaenol, cynnal bywyd ar unwaith, technegau torri'n rhydd, rheoli trais ac ymddygiad ymosodol.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Caiff pob aelod o staff ei atgoffa o'i hyfforddiant e-ddysgu gorfodol trwy'r system MEL. Fodd bynnag, mae amserlen hyfforddiant bellach ar waith ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod 2018.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Mehefin 2018
Dylai'r darparwr cofrestredig roi sesiwn hyfforddi i'r holl staff er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r bag argyfwng newydd.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Ychwanegwyd hyn at agenda'r sesiwn goruchwyliaeth grŵp nesaf, a bydd y bag yn cael ei gymryd i gyfarfodydd staff. Caiff lluniau a disgrifiadau hefyd eu cylchredeg.	Jessica Wilson, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Mehefin 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Jessica Wilson**
Swydd: **Cyfarwyddwr yr Ysbyty**
Dyddiad: **8 Mehefin 2018**